



Ordinhad 5

Y Cyngor: Datganiad o'r Prif Gyfrifoldebau

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 06 Gorffennaf 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 2.0

Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2020

ORDINHAD 7

Y CYNGOR: DATGANIAD O'R PRIF GYFRIFOLDEBAU

Bydd y Cyngor yn ceisio hyrwyddo amcanion y Sefydliad fel y maent wedi eu diffinio yn ei Siarter, sy'n cynnwys diogelu enw da a gwerthoedd y Sefydliad a sicrhau bod y Sefydliad yn ymateb i fuddiannau ei randdeiliaid, gan gynnwys y myfyrwyr, y gymuned leol a chyrrff cyllido.

Y mae'r Cyngor yn gweithredu'r holl bwerau sydd ar gael i'r Sefydliad ar wahân i'r rhai a roddir yn benodol i gyrff eraill. Ag eithrio wrth ymwneud â materion sy'n gofyn am drefniadau pleidleisio arbennig, cymerir penderfyniadau gan y Cyngor ar sail y mwyafrif o'r rhai sydd yn bresennol ac yn pleidleisio.

Rhestr o'r Prif Gyfrifoldebau

1. Cymeradwyo cenadwri a gweledigaeth strategol y Sefydliad, ei gynlluniau busnes ac academiaidd hirdymor, a dangosyddion perfformiad allweddol.
2. Diogelu enw da a gwerthoedd y Sefydliad, a sicrhau ei fod yn gweithredu ac yn datblygu mewn modd cynaliadwy.
3. Sicrhau y cydymffurfir â Siarter ac Ystatudau'r Sefydliad ar bob adeg, a sicrhau bod cyngor priodol ar gael fel bod hyn yn gallu digwydd.
4. Arfer ei waith yn unol ag arferion gorau rheolaeth gorfforaethol mewn Addysg Uwch, gan gynnwys Cod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (CUC), ac ag egwyddorion bywyd cyhoeddus a baratowyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.
5. Sicrhau bod prosesau ar waith i fonitro a chlориannu perfformiad ac effeithlonrwydd y Sefydliad o'u cymharu â chynlluniau a dangosyddion perfformiad allweddol cymeradwy y dylid, lle y bo hynny'n bosibl ac yn briodol, eu meincnodi trwy eu cymharu â sefydliadau eraill tebyg.
6. Sefydlu prosesau i fonitro a chlориannu perfformiad ac effeithlonrwydd y Cyngor ei hun, fel y corff llywodraethu.
7. Bod yn awdurdod ariannol, busnes a chontractol i'r Sefydliad, sicrhau bod y llyfrau cyfrifon cywir yn cael eu cadw, cymeradwyo'r gyllideb flynyddol a'r datganiadau ariannol, ac ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol am asedau'r Sefydliad, ei eiddo a'i ystâd.
8. Sicrhau bod systemau rheoli ac atebolrwydd yn cael eu sefydlu a'u monitro ledled y Sefydliad, gan gynnwys rheolaeth ariannol a gweithredol ac asesu risg, a gweithdrefnau i ymdrin â chwynion mewnol ac i reoli gwrthdaro buddiannau.
9. Gweithredu fel awdurdod cyfreithiol y Sefydliad a, thrwy hynny, sicrhau bod systemau ar waith i gyflawni holl rwymedigaethau cyfreithiol y Sefydliad, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o gontractau ac ymrwymadau cyfreithiol eraill a wneir yn enw'r Sefydliad.
10. Gweithredu fel ymddiriedolwr i unrhyw eiddo, cymynrodd, gwaddoliad, becwêdd, neu rodd a wneir i gynorthwyo gwaith a lles y Sefydliad; a sicrhau bod statws y Brifysgol yn cael ei gynnal fel elusen gofrestredig.
11. Dirprwyo awdurdod i'r Is-Ganghellor, fel prif weithredwr, am reolaeth academiaidd, corfforaethol, ariannol, ac am reoli ystâd a staff y Sefydliad; i sicrhau bod yr Is-Ganghellor yn atebol am y ddirprwyaeth; a sefydlu ac adolygu'n rheolaidd y polisïau, y gweithdrefnau a'r cyfyngiadau sydd ynghlwm wrth y swyddogaethau rheoli hynny a wneir drwy awdurdod pennaeth y Sefydliad.

12. Gweithredu fel awdurdod cyflogi i holl staff y Sefydliad, sicrhau bod polisiau ar waith ar gyfer recriwtio, cyflogi a gwobrwyo staff, a gwneud darpariaeth ar gyfer cynlluniau pensiwn.
13. Sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i reoli iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr a phobl eraill y mae gweithrediadau'r Brifysgol yn effeithio arnynt.
14. Drwy ymgynghori â'r Senedd:
 1. Sicrhau ansawdd a safonau'r addysg a ddarperir.
 2. Gwneud darpariaeth fel y gwêl yn briodol ar gyfer profiad cyffredinol y myfyrwyr.
 3. Derbynn cysylltiadau sefydliadau eraill â'r Sefydliad neu adrannau neu ganghennau yn y fath sefydliadau.
15. Penodi'r Is-Ganghellor, fel prif weithredwr, a rhoi ar waith drefniadau priodol ar gyfer monitro ei berfformiad/ei pherfformiad.
16. Caiff y Cyngor benodi Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion a Dirprwy Is-Gangellorion.
17. Cymeradwyo a / neu ethol rhai i'w penodi'n Ganghellor, Dirprwy Gangellorion, Chadeirydd y Cyngor, a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor, yn ogystal ag aelodau annibynnol ac aelodau wedi'u penodi neu eu cyfethol i'r Cyngor.
18. Penodi Clerc i'r Cyngor a sicrhau, os oes gan y sawl a benodir gyfrifoldebau rheoli yn y Sefydliad, fod gwahaniaeth clir rhwng y llinellau atebolrwydd.